

Gyda'n gilydd gallwn lunio'n Hamgylchedd



POBL AMGYLCHEDD



Rydym ni i gyd yn dod yn gyfarwydd iawn â'r pwysau presennol a pharhaus ar gyllidebau. Mae'r cyfyngiadau ariannol hyn yn arwain at oedi wrth ateb y galw gan gwsmeriaid ac Aelodau, yn cynyddu llwyth gwaith staff mewn rhai meysydd ac yn golygu nad yw rhai meysydd gwasanaeth yn cael eu darparu mwyach. O ganlyniad, mae gweithio i'r Cyngor yn teimlo'n heriol iawn weithiau!

Yn y cyd-destun hwn, mae'n rhaid i ni ddarparu ein gwasanaethau statudol ac weithiau cyflwyno newidiadau i'n gwasanaethau nad ydynt bob amser yn cael eu croesawu gan ein cwsmeriaid. Fodd bynnag, mae enghreifftiau gwych lle mae timau wedi gweithio'n galed i gynllunio gwasanaethau i gyflawni targedau a dyheadau, cadw o fewn y gyllideb a sicrhau cefnogaeth ein trigolion.

Mae'r newidiadau diweddar i'n gwasanaeth casglu gwastraff yn enghraifft dda. Roedd ymgyrch a chynllun cyfathrebu cryf yn cyd-fynd â'n newidiadau i leihau nifer y casgliadau

bagiau du ar gyfer gwastraff gweddilliol a chynyddu nifer y casgliadau gwastraff bwyd y gellir ei ailgylchu. Yn y cefndir, bu gyrwyr a llwythwyr yn gweithio gyda'r goruchwylwyr a'r rheolwyr i addasu llwybrau casglu a chynllunio'r gwaith o ddosbarthu bagiau newydd i gwsmeriaid. O ganlyniad i waith caled pawb a chymorth trigolion Sir Gaerfyrddin, mae nifer ein casgliadau ailgylchu wedi cynyddu, sy'n golygu ein bod ar y trywydd iawn i gyrraedd ein targed statudol o 64% erbyn Mawrth 2020. Da iawn bawb.



Bydd rhai ohonoch yn ymwybodol y bu anghydfod parhaus mewn perthynas â chyflogau staff sy'n cyflawni'r dyletswyddau cynnal a chadw y tu allan i oriau arferol dros y gaeaf. Mae'n bleser gennyf gyhoeddi y daethpwyd i gytundeb drwy gyd-fargeinio â'r tri Undeb Llafur. Diolch i'r holl staff cynnal a chadw dros y gaeaf sydd wedi bod yn amyneddgar iawn wrth i ni archwilio'r holl bryderon i ddod i gytundeb. Rwy'n gobeithio y bydd pawb yn cytuno y daethpwyd i gytundeb teg a chyfartal sy'n cydnabod amodau gwaith penodol y gyrwyr sy'n darparu'r gwasanaeth gwerthfawr hwn gan sicrhau diogelwch pawb ar ein ffyrdd.

Gyda'r holl bwysau hyn, mae angen i ni i gyd ofalu amdanom ein hunain a'n cydweithwyr. Cofiwch gofrestru ar gyfer y sesiynau hyfforddiant ac ymwybyddiaeth o lechyd Meddwl, a chadwch lygad am ragor o ddigwyddiadau iechyd a llesiant.

Ruth Mullen
Cyfarwyddwr

Bywyd Swyddogion Gorfodi



Nid rhywbeth i'r gwangalon yw didoli sbwriel â llaw sydd wedi'i daflu, ond mae'n rhan o waith bob dydd ar gyfer swyddogion gorfodi materion amgylcheddol y Cyngor.

Cewynnau brwnt, bwyd sydd wedi llwydo, gwydr, dillad, teganau i oedolion, a mochyn cwta wedi marw - dyma rai o'r eitemau y mae swyddogion wedi'u hwynebu wrth waredu sbwriel y mae pobl wedi'i adael.

Dyma gipolwg bach ar wasanaeth 7 diwrnod yr wythnos a ddarperir gan swyddogion gorfodi Cyngor Sir Caerfyrddin. Mae sicrhau bod yr amgylchedd yn cael ei warchod yn hanfodol ac mae hyn yn golygu patrolio ym mhob tywydd i chwilio am bethau fel sbwriel sydd wedi'i dipio'n anghyfreithlon ac ymdrin â phobl sy'n cael eu dal yn torri'r gyfraith.

Yn ystod y 12 mis diwethaf, cyhoeddwyd 277 o Hysbysiadau Cosb Benodedig, a chynhaliwyd 22 o erlyniadau llwyddiannus.



Hyforddiant Systemau Draenio Cynaliadwy (SUDS)



Treuliodd 14 aelod o Adran yr Amgylchedd 2 ddiwrnod yn yr hydref yn datblygu eu gwybodaeth am Systemau Draenio Cynaliadwy (SUDS). Canolbwyntiodd y cwrs, a gyflwynwyd gan CIRIA ym Mharc Myrddin, ar ddylunio systemau SUDS a gofynion y ddeddfwriaeth newydd, sef atodlen 3 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010.

Daeth yr hyfforddiant â staff o dair Adran yn yr adran ynghyd sef Prifffyrdd (Dylunio peirianeg), Eiddo (Dylunio Eiddo) ac aelodau o'r Tîm Amddiffyn Llifogydd o'r Is-adran Gwastraff a'r Gwasanaethau Amgylcheddol. Profodd yr hyfforddiant i fod yn llwyddiant nid yn unig wrth ddatblygu gwybodaeth SUDS ond o sicrhau

dealltwriaeth o'r cysyniad a'r canlyniadau y mae'r ddeddfwriaeth wedi'u cynllunio i'w cyflawni.

Gan ddod â'r timau dylunio a'r tîm amddiffyn rhag llifogydd ynghyd sy'n penderfynu ac yn cymeradwyo'r dyluniadau, yn chwalo rhwystrau, yn rhoi wynebau i enwau ac yn ceisio adeiladu perthnasoedd a fydd ond yn gadarnhaol wrth sicrhau bod y gofynion deddfwriaethol yn cael eu bodloni mewn modd amserol a ffasiwn chost-efeithiol.

Fframwaith Contractwyr Rhanbarthol De-orllewin Cymru 2020



Mae tîm Dylunio Eiddo Cyngor Sir Gaerfyrddin yn falch o gyhoeddi dyfarniad llwyddiannus Fframwaith Contractwyr Rhanbarthol De-orllewin Cymru 2020 gwerth £1biliwn a aeth yn fyw ar 1 Chwefror. Roedd y cydweithio a'r ymroddiad rhwng y timau ym maes Dylunio a Chaffael yn eithriadol ac wedi arwain at gyrraedd y dyddiad cau ar gyfer y dyfarniad hwn.

Mae 19 o gwmnïau wedi ennill eu lle ar y fframwaith newydd, a fydd yn rhedeg am 4 blynedd hyd at 31 Ionawr 2024 ac yn addo hyd at £1biliwn o waith ar draws rhanbarth De-orllewin Cymru.

Mae Fframwaith Contractwyr Rhanbarthol De-orllewin Cymru 2020 yn gyfrwng cyflwyno sy'n cydymffurfio'n llawn

â'r UE ar gyfer gwaith adeiladu cyfalaf, gwaith cynnal a chadw adweithiol ac wedi'i gynllunio ar gyfer sefydliadau'r sector cyhoeddus ledled rhanbarth De-orllewin Cymru gan gynnig ffordd effeithlon a chydweithredol i gaffael prosiectau adeiladu. Mae'r fframwaith hefyd yn darparu ar gyfer cyflawni gwerth cymdeithasol ac yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Er mwyn defnyddio'r fframwaith cysylltwch â'r tîm fframwaith ar yr e-bost isod, mae aelodau'r tîm ar gael i gynorthwyo gydag unrhyw gymorth sydd ei angen. Os oes gennych unrhyw ymholiadau, mae croeso i chi gysylltu â'r Tîm Fframwaith drwy'r e-bost canlynol:

Pdesign@sirgar.gov.uk



A ydych chi erioed wedi meddwl sut y bydd pentrefi a threfi ein sir yn edrych yn 2033?

Mae'r Adain Blaen-gynllunio ar hyn o bryd yn gwahodd sylwadau ar y Fersiwn Adneuo o Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin. Mae'r Cynllun yn dangos faint o dwf sydd ei angen arnom a'r dyraniadau tir ar gyfer cartrefi a busnesau newydd yn ogystal â pholisïau i ddiogelu a hyrwyddo'r amgylchedd, yr iaith Gymraeg, yr economi a thwf cyflogaeth. Mae hefyd yn rhoi ffocws ar lesiant ac ar yr ymdrechion i ddiogelu a gwella amgylcheddau naturiol ac adeiledig y sir drwy ddatblygu cynaliadwy i sicrhau amgylcheddau a lleoedd o safon.

Mae'n nodi'r angen am 8,835 o dai newydd gan gynnwys 1,500 o dai fforddiadwy yn ogystal â chyfleoedd i greu dros 5,000 o swyddi newydd. Mae'r Cynllun yn dosbarthu'r twf hwn mewn modd sy'n adlewyrchu amrywiaeth cymunedau Sir Gaerfyrddin ac anghenion ei hardaloedd trefol a gwledig.

Dylid cyflwyno sylwadau ar ein gwefan ac mae angen iddynt ddod i law erbyn 4.30pm ar 27 Mawrth 2020.

Ewch in wefan
>Eich Cyngor
>Gwasanaethau'r Cyngor
>Cynllunio
>Cynllun Datblygu Lleol 2018-2033
>Cynllun Adnau



Diolch yn fawr am ailgylchu



Diolch enfawr i staff sy'n byw yn ein sir sydd wedi helpu i greu cynnydd aruthrol yn y gwastraff bwyd sy'n cael ei ailgylchu.

Ym mis Hydref 2019, fe wnaethom leihau nifer y bagiau du y gall aelwydydd eu rhoi allan i'w casglu ac yn y mis cyntaf, ailgylchwyd cyfanswm o 370 tonnall o wastraff bwyd ynghyd â 90 tonnall ychwanegol o fagiau glas. Dyma gynnydd aruthrol o 25% yn y gwastraff bwyd a gaiff ei ailgylchu a chynnydd o 10% o ran ailgylchu bagiau glas.

Rydym hefyd wedi gofyn i'r holl breswylwyr sy'n dod i ganolfannau ailgylchu roi trefn ar eu gwastraff bagiau du er mwyn sicrhau ein bod yn gwaredu yr holl wastraff ailgylchu yn y modd cywir. Yn ogystal, rydym wedi gwahardd gwastraff masnachol, gwiriadau preswyliaeth, system hawlenni ar gyfer ein faniau i hybu ein cyfradd ailgylchu ymhellach.

Rydym ar hyn o bryd yn ailgylchu oddeutu 62% o sbwriel ond mae'n rhaid inni gyrraedd targed o 64% erbyn diwedd y flwyddyn ariannol neu fyddwn yn wynebu dirwy sylweddol gan Lywodraeth Cymru.

Gostyngiad Staff—Vodafone

Bydd angen cyfeiriad e-bost gwaith dilys arnoch i adbrynu'ch cod disgownt 15 i ffwrdd. Gallwch ddefnyddio'ch cod ddwywaith, gan ganiatáu i ffrindiau a theulu fanteisio i'r eithaf.

<https://advantage.vodafone.co.uk/>

Gwerthoedd Craidd: Un Tîm (Storm Dennis)

Mae ein timau priffyrdd, trafndiaeth, glanhau a gwastraff wedi bod yn gweithio fel **Un Tîm** I lleihau effaith Storm Dennis. Mae ein staff wedi chwarae rhan fawr yn ystod y cam ymateb brys ac ar ôl y digwyddiad pan newidiodd ymdrechion i adferiad. Mae llawer ohonoch wedi mynd y tu hwnt i hynny i gefnogi cymunedau a gwasanaethau brys mewn amodau anodd iawn gan roi'r **Cwsmeriaid yn Gyntaf**. Diolch i bob un ohonoch chi!

Y Cynghorydd Linda Davies - Evans " Hoffwn ddiolch i bob aelod o staff am bopeth a wnaed i gefnogi ac amddiffyn ein preswylwyr. Diolch i bob un sydd wedi bod yn gweithio yn ystod storm Dennis, yn gwneud eu gorau dros eraill. Daw'r diolch hwn wrth fi fy hun, yr holl breswylwyr a'r busnesau. Diolch yn fawr iawn i pawb"



Ydych chi wedi cael damwain mewn cerbyd gwaith?

Ydych chi wedi rhoi gwybod i'ch cwmni yswiriant personol?

Mae'n rhaid i bob gyrrwr ddatgan pob damwain/hawliad i'w cwmni yswiriant cerbyd modur. Os bydd cwmni yswiriant yn darganfod bod gyrrwr wedi methu â rhoi gwybod am ddamwain, gallai polisi personol y gyrrwr gael ei ddatgan yn ddi-rym, ac efallai y bydd yn ei chael hi'n anodd cael yswiriant yn y dyfodol.

Nid oes modd ichi wahaniaethu rhwng yr hyn sy'n digwydd wrth yrru cerbyd gwaith a gyrru cerbyd personol o ran yswiriant modur. Cofiwch gymryd gofal bob amser, boed hynny yn eich cerbyd eich hun neu mewn cerbyd a ddarperir gan y Cyngor.



Slipiau cyflog nawr yn ddigidol



Mae'r Tîm Cyswllt Adnoddau yn cyflwyno 'MyView' i alluogi staff i weld eu slip cyflog ar-lein.

Bydd y system hon yn disodli'r angen i gyhoeddi unrhyw slipiau cyflog wedi'u hargraffu ar gyfer staff.

Bydd staff wedi derbyn eu slip talu papur olaf yn Ionawr 2020.

Fframwaith Contractwyr Rhanbarthol De-orllewin Cymru 2020



Mae tîm Dylunio Eiddo Cyngor Sir Gaerfyrddin yn falch o gyhoeddi dyfarniad llwyddiannus Fframwaith Contractwyr Rhanbarthol De-orllewin Cymru 2020 gwerth £1biliwn a aeth yn fyw ar 1 Chwefror. Roedd y cydweithio a'r ymroddiad rhwng y timau ym maes Dylunio a Chaffael yn eithriadol ac wedi arwain at gyrraedd y dyddiad cau ar gyfer y dyfarniad hwn. Mae 19 o gwmnïau wedi ennill eu lle ar y fframwaith newydd, a fydd yn rhedeg am 4 blynedd hyd at 31 Ionawr 2024 ac yn addo hyd at £1biliwn o waith ar draws rhanbarth De-orllewin Cymru.

Mae Fframwaith Contractwyr Rhanbarthol De-orllewin Cymru 2020 yn gyfrwng cyflwyno sy'n cydymffurfio'n llawn â'r UE ar gyfer gwaith adeiladu cyfalaf, gwaith cynnal a chadw adweithiol ac wedi'i gynllunio ar gyfer sefydliadau'r sector cyhoeddus ledled rhanbarth De-orllewin Cymru gan gynnig ffordd effeithlon a chydweithredol i gaffael prosiectau adeiladu. Mae'r fframwaith hefyd yn darparu ar gyfer cyflawni gwerth cymdeithasol ac yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Er mwyn defnyddio'r fframwaith cysylltwch â'r tîm fframwaith ar yr e-bost isod, mae aelodau'r tîm ar gael i gynorthwyo gydag unrhyw gymorth sydd ei angen. Os oes gennych unrhyw ymholiadau, mae croeso i chi gysylltu â'r Tîm Fframwaith drwy'r e-bost canlynol: Pdesign@sirgar.gov.uk

WELSH CORNER

Dydd Gwyl Dewi 2020

28 Chwefror 2020

Café Cwtch , Theatr Ffwrnes , Llanelli

- Bydd yr holl elw yn mynd i Gronfa Bloodwise Llanelli
- £2 Coffi a Chacen am ddim
- Gweithgareddau a gemau



2 Mawrth 2020

Ystafell Cyfarfod 1, Bloc 1, Parc Myrddin 11-12.30yh
Ystafell Gweithio'n Ystwyth, Neuadd y Sir 12-1.30yh

Gwahoddir staff i ddod â rhodd cacennau ar gyfer y digwyddiad. Bydd yr holl elw yn mynd i Gronfa leol Eisteddfod yr Urdd Sir Gâr 2021!


- Amrywiaeth o gwisiau, cystadlaethau...
- Gwisgwch goch i'r Gwaith
- Sesiwn glocsio



Sefydlu Staff

Safonau Cymraeg a Chymraeg adrannolbydd arweinwyr iaith nawr yn cael eu cynnwys ym mhob staff Newydd sefydlu yn ein hadran.

Teimlwn fod angen i staff newydd fod yn ymwybodol o'r safonau y mae'n rhaid i ni eu cynnal, pa gefnogaeth sydd ar gael a phwy yw eu harweinwyr Cymraeg er mwyn iddynt dderbyn unrhyw gefnogaeth sydd yn ofynnol.





Barrie yn beicio'r Tour De France am Canolfan Ganser Felindre

Fydd Barrie yn yn ôl â John Worsfold, Kevin Hanbury, Luke Davies, Angharad Hanbury, Meurig Griffiths, Neal Davies, John Thomas a Mark Weeds.

Faire ffrind da Barrie, John, ei ddiagnosis faint yn 2016 mae Canser y Bledren a'i ddiagnosis eto â Chanfer y Croen yn 2017 a cholodd ei fam i Ganserfedd. Mae John yn gwneud yn y "Tour to Recovery" er cof am ei fam a thair Elusen Canser iawn cywir hon. Dywnt yn y ffaith eu bod yn cael eu defnyddio "Tour De France" 2020, pob un o'r 21 Cam. 3500Km, gan hene yn Nice aelod lau 25 oed 2020 ac yn ym Mharis y mae 17eg yn 2020, dim ond 2 o o'r y ras. Mae Tîm yn yn codi £ 21,000 o gwmpas i £ 1,000 y Cam i'r Elusen Canolfan Ganser Felindre. Bhidant yn ar gataint y flwyddyn a chost y grwfu'r eu eu ar ar o o o. £ 2800 yr un. Ma croeso mawr i solas Nawdd neu Roddalan i oed i godi yn y ffordd i Ionad Canser Velindre.



<https://www.justgiving.com/fundraising/john-worsfold-tour-to-recovery>

Arwyr Movember

Hoffai Nigel Skinner, Parc Myrddin ddiolch i bawb a gefnogodd ei her 'Movember',

'Mae lechyd Meddwl yn fater sy'n agos ataf a gall ymgripio arnoch chi ar unrhyw adeg am nifer o resymau - mae'n dda siarad 'meddai Nigel.

Mae eich rhoddion ar gyfer 'Atal lechyd Meddwl ac Hunan-laddiad' wedi codi £ 437.00. Da iawn!



Cododd 8 aelod o staff Dylunio Eiddo, Parc Myrddin fod £ 68 yn mynd i Uned Prostad Ysbyty Cyffredinol Gorllewin Cymru.

Gwnaeth y staff hyn i godi gwallgofrwydd yn ogystal â chefnogi'r uned sy'n trin dynion lleol.

O'r chwith i'r dde Top Row - Anthony Hall, Andrew Briggs, Shane Evans, Rob Jones

O'r chwith i'r R Bottom Row - Mathew Evans, Wayne Mosey, Gruffudd Howells, Jon Wheatley

Da iawn i gyd!



Llesiant Gweithwyr Employee Wellbeing

Ymgyrch Trais ac Ymosodedd 2020

Yn ddiweddar, lansiodd y tîm Iechyd a Diogelwch eu hymgyrch Trais ac Ymddygiad Ymosodol 2020 sy'n targedu nifer o feysydd gwasanaeth allweddol ledled Cyngor Sir Caerfyrddin.

Nod yr ymgyrch yw lleihau'r risg i staff o ymddygiad treisgar ac ymosodol trwy fwy o amheuaeth a hyrwyddo polisi dim goddefgarwch y cyngor. Mae posteri newydd sbon yn cael eu cynllunio i'w harddangos ledled yr awdurdod, gyda sawl aelod o staff yn gwneud ymddangosiad ar y rhain.

Mae'r Swyddogion Gorfodi Sifil a'r timau Gwasanaethau Gwastraff wedi bod yn rhan o'r ymgyrch felly cadwch lygad am y posteri hyn - dod yn fuan!



Ein dyddiau iechyd a lles adrannol

Dewch draw am wiriad iechyd dewisol i gynnwys:

- Pwysedd Gwaed
- Uchder a phwysau
- BMI
- Gwiriadau siwgr gwaed a cholesterol
- Cyngor ar fyw'n iach
- Siaradwch ag un o'n hymarferwyr cymorth lles

Byddwn yn cynnal digwyddiadau yn Llandeilo, Glanamman, Parc Myrddin, Trostre a Cillefwr yn mis Ebrill/Mai 2020. Dewch ymlaen!



Mae Her Camau Elusen Parc Myrddin yn Parhau

Bob mis mae cydweithwyr yn brwydro i ennill eu her camau eu hunain. Mae pawb sy'n cymryd rhan yn rhoi £ 2 ac mae enillydd y mis yn rhoi'r elw i'w elusen ddewisol. Enillodd Kelly Phillips yr her rhwng Awst a Thachwedd a rhoddodd arian i Ambiwylans Awyr Cymru ac Awstralia Bush Fires - Apêl Koala. Enillodd Poppy Evans yr her gamau ar gyfer mis Rhagfyr 2019 a'i rhoi i Gronfa Gymunedol Eglwys Towy.

DIWRNODAU IECHYD A GOFAL I'R ADARAN YR AMGYLCHEDD

ENVIRONMENT DEPARTMENT HEALTH & WELLBEING DAYS

DEWCH DRAW I GAEL GWIRIAD IECHYD DEWISOL I GYNNWYS:

- Pwysedd Gwaed
- Taldra & Pwysau
- BMI a Mesur Cylchedd Canol
- Gwaed Sigwr a Colesterol
- Cyngor ar Fwyn lach
- Siaradwch gyda ymarferwyr y Gwasanaeth Cymorth Llesiant



COME ALONG FOR AN OPTIONAL HEALTH CHECK TO INCLUDE:

- Blood Pressure
- Height & Weight
- BMI and Waist Circumference Measurements
- Blood Sugar & Cholesterol Checks
- Advice on Healthy Living
- Talk to one of our Wellbeing Support Practitioners

Dyddiadau Digwyddiadau :

- 28 Ebrill 8yb – 12yh Cillefwr Depo
- 29 Ebrill 8yb – 12yh Parc Myrddin
- 5 Mai 8.30yb – 12yh Llandeilo
- 13 Mai 8yb – 12yh Depo Glanamman
- 14 Mai 8yb – 12yh Depo Trostre

Event Dates:

- 28 April 8am – 12pm Cillefwr Depot
- 29 April 8am – 12pm Parc Myrddin
- 5 May 8.30am – 12pm Llandeilo
- 13 May 8am – 12pm Glanamman Depot
- 14 May 8am – 12pm Trostre Depot

